

## Y Ffactor RHD a Gwrth D

### Amddiffyn y genhedlaeth nesaf

Mae'n debyg eich bod newydd gael gwybod bod angen pigiad o sylwedd "Gwrth-D" arnoch, ac efallai eich bod yn meddwl tybed beth ydyw a pham y mae ei angen arnoch.


Mae'r daflen hon yn ateb y ddau gwestiwn hwn ac yn egluro hefyd pam y gall y pigiad syml hwn eich amddiffyn yn llawn – nawr ac yn y dyfodol.

### Y Ffactor RHD

Weithiau gall merched beichiog berthyn i grŵp gwaed sy'n wahanol i'w babanod. Mae hyn yn hollol normal yn aml ac nid yw'n broblem fel arfer. Fodd bynnag, mewn 1 beichiogrwydd o bob 10, mae'r grwpiau gwaed hyn yn gwahaniaethu mewn un ffordd bwysig, sef presenoldeb neu ddiffyg presenoldeb celloedd gwaed coch ar yr wyneb, neu'r 'Ffactor Rhesws'. Cyfeirir ato bellach yn syml fel y Ffactor RhD.



RhD-Negyddol



RhD-Bositif

*Antigenau RhD yn gorchuddio wyneb y gell goch*

Os ydych yn cario'r ffactor RhD hwn ar eich celloedd gwaed coch, yna rydych yn RhD-Bositif. Os nad ydych yn eu cario, rydych yn RhD-Negyddol.



## Sut y gall y Ffactor RhD effeithio arnoch chi

Weithiau, gall ychydig bach o waed groesi o gylchrediad y baban yn y brych a mynd i mewn i lif gwaed y fam.

Fel arfer digwydda hyn ychydig cyn geni ac mae'n gwbl normal, gan ddigwydd mewn **ymron i ¾** o bob beichiogrwydd fel arfer. Fodd bynnag, mae trosglwyddiad gwaed o'r fath hefyd yn debygol ar ôl digwyddiad penodol megis erthyliad naturiol neu derfyniad (erthyliad)

Os digwydd i waed groesi o fabi RhD-Bositif i fam RhD-Negyddol, yna bydd system imiwnedd y fam yn gweld gwaed y baban fel rhywbeth "dieithr," ac yn cynhyrchu gwrthgorffynnau a fydd yn dinistrio holl waed y baban yng nghylchrediad y fam.

Bydd system imiwnedd y fam yn cofio sut i gynhyrchu'r gwrthgorffynnau hyn a'i galluogi i'w cynhyrchu'n gyflymach a chynhyrchu mwy ohonynt yn y dyfodol os bydd angen.

Dim ond os yw'r baban yn RhD-Bositif eto a gwaed y baban yn croesi ar draws y brych y bydd hyn yn broblem yn ystod y beichiogrwydd nesaf. Bydd system imiwnedd y fam yn defnyddio'i chof i gynhyrchu'r un gwrthgorffynnau ag o'r blaen. Gall y rhain wedyn ailgroesi'r brych a dechrau dinistrio gwaed y baban yng nghylchrediad y baban cyn iddo gael ei eni.

Dywedir bod babanod sydd â'r broblem hon yn dioddef o Glefyd Hemolytig Babanod Newydd eu Geni, neu HDN yn fyr.

## Cael eich Amddiffyn rhag Gwrth-D

Mae meddygon, nyrsys a bydwagedd yn ymwybodol iawn o'r broblem hon a gallant atal hyn rhag digwydd trwy roi pigiad Gwrth-D i'r fam

Bydd Gwrth-D yn gweithio trwy ddinistrio unrhyw waed o'r baban sy'n bresennol yng nghylchrediad gwaed y fam cyn iddi allu cynhyrchu eu gwrthgorffynnau ei hun.

Golyga hyn nad oes gan y fam wrthgorffynnau i achosi HDN yn ei beichiogrwydd yn y dyfodol.

Bydd pigiad syml o Wrth-D felly yn amddiffyn y fam a'i baban petai'n digwydd beichiogi eto yn y dyfodol.



## Os oes gennych amheumon, holwch

Bydd eich bydwraig, eich meddyg neu'ch nyrs yn falch i roi mwy o wybodaeth i chi am y Ffactor RhD a'r hyn a olyga i chi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu unrhyw amheumon ynglŷn â'r pigiad, gofynnwch am wybodaeth ar bob cyfrif.

*Enw'ch bydwraig:*

.....

*Cyfeiriad Cyswllt:*

.....  
.....  
.....  
.....  
.....

*Rhif Ffôn:*

.....

Gwasanaeth Gwybodaeth i Gleifion gan:



Mae BPL yn uned o'r Awdurdod Gwaed Cenedlaethol (NBA)  
Mae NBA yn Awdurdod Iechyd Arbennig o fewn y GIG.

Bio Products Laboratory, Dagger Lane, Elstree,  
Hertfordshire. WD6 3BX, U.K.

Rhif ffôn: : 020 8258 2200

[www.bpl.co.uk](http://www.bpl.co.uk)